



MAE UN o erddi'r Rhyl yn llawn blodau ar ôl i dîm y cyngor fynd ati i'w thacluso cyn ailagor.

Mae'r Gerddi Botanegol fel rheol yn cael gofal gan dîm Gwaith Stryd Cyngor Sir Ddinbych ond, gydag adnoddau yn brin oherwydd y pandemig Coronafeirws, mae cynghorwyr tref y Rhyl a'r staff wedi rhoi help llaw i adfer y gerddi.

Defnyddiodd y Cynghorydd Barry Mellor, y Cynghorydd Vicky Roberts, y Cynghorydd Keith Jones, y Cynghorydd Diane King, y Cynghorydd Alan James, clerc y dref Gareth Nickels a dirprwy glerc y dref Helen Windus eu sgiliau i dacluso'r gwelyau blodau a phlannu planhigion newydd yn barod i'r gerddi ailagor.

Meddai Helen: "Bob blwyddyn, mae'r tîm Gwaith Stryd yn gwneud gwaith gwych ar welyau blodau'r Rhyl. Eleni, oherwydd y cyfnod clo, mae adnoddau yn brin iawn ac mae nifer o drefi angen eu help, ac felly bu i ni ddod â thîm at ei gilydd i helpu yn y Rhyl.

"Roeddem yn gallu cadw pellter cymdeithasol a gweithio'n ddiogel i wneud y gwaith. Eleni roedd y bwysicach nag erioed i ni bod y gerddi yn edrych ar eu gorau er mwyn i bobl nad ydynt wedi bod allan am beth amser allu mwynhau lliwiau a heddwch pan fydd y gerddi'n ailagor. Mae'r tîm Gwaith Stryd nAwr yn ôl yn gweithio ar weddill y dref hefyd, felly bydd gwelyau a thybiau blodau'r Rhyl yn llawn blodau."

Cymerir penderfyniad ar ailagor y Gerddi Botanegol gan Gyngor Sir Ddinbych pan fydd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn cael eu llacio ledled Cymru.

Capsiwn: Clerc y Dref Gareth Nickels yn gweithio yn y Gerddi Botanegol.

